Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Eglwyswrw

**Hen Ysgol Eglwyswrw**
**Crymych**
**SA41 3SN**

**Dyddiad yr arolygiad: Rhagfyr 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Cylch Meithrin Eglwyswrw

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Eglwyswrw |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Gaynor Maxfield |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Catrin Phillips |
| Nifer y lleoedd | 24 |
| Amrediad oedran y plant | 2 a hanner i 4 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 15 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 12 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09:00 –12:00 dydd Llun, Mawrth, Mercher a Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydw |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae hwn yn wasanaeth sy'n darparu 'Cynnig Gweithredol' y Gymraeg. Mae'n darparu gwasanaeth sy'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion y Gymraeg ac anghenion diwylliannol y plant sy'n defnyddio, neu a allai, ddefnyddio'r gwasanaeth |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Mehefin 2018 |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 21/06/2022 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 06/12/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolwg yma.

## Argymhellion

A1 Datblygu ymhellach y defnydd o arsylwadau i hyrwyddo dysgu a datblygiad plant

A2 Cryfhau prosesau hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwelliant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles:**

Mae’r rhan fwyaf o blant yn hapus iawn o fewn eu hamgylchedd dysgu a chwarae. Maent yn frwdfrydig ac yn mwynhau'r gweithgareddau addas sydd ar gael iddynt gan ddewis eu tegan, eu gweithgaredd a ble i chwarae yn hyderus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio yn dda iawn gyda'u cyfoedion a'r ymarferwyr. Dangosant gyfeillgarwch hyfryd tuag at ei gilydd. Er enghraifft, pan wnaeth plentyn dal cwpan ei ffrind yn llonydd er mwyn iddo arllwys llaeth.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn cyrraedd y lleoliad gan wenu a rhedeg at ymarferwyr ac yn amlwg yn teimlo'n ddiogel yn eu hamgylchedd. Dengys bron pob plentyn hoffter tuag at yr ymarferwyr gan fynd atynt yn hapus a chyfforddus. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu perthnasoedd cadarn gyda phlant eraill. Er enghraifft, wrth rannu’r blociau mawr i greu muriau uchel o amgylch y bws darllen. Dengys plant hunan-falchder yn eu gwaith trwy ddangos eu darn terfynol yn falch i ymarferwyr.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn symud o un gweithgaredd i'r llall yn hyderus gan ddewis gweithgareddau o’u diddordeb. Maent yn dawel eu meddwl gan wybod nad oes pwysau arnynt gymryd rhan os nad ydynt yn dymuno hynny. Er enghraifft, yn ystod y sesiwn ganu, dewisodd rhai fynd i chwarae yn hytrach nag eistedd ar y mat. Mae llais cryf gan y plant yn y lleoliad. Mae mwyafrif yn cyfrannu eu syniadau am eu snac, gan greu rhestr siopa gydag ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn cyfathrebu eu dymuniadau a'u hoffterau yn hyderus gan ddewis grawnfwydydd, diodydd a snac iachus. Mae rhan fwyaf o blant yn dangos sgiliau gwrando arbennig o dda. Maent yn ymateb yn aeddfed i ymarferwyr sydd yn dweud wrthynt i fod yn ofalus wrth chwarae gyda blociau pren. Dengys y rhan fwyaf o blant sgiliau gwrando a chyfathrebu da iawn wrth ymateb i gwestiynau gan ymarferwyr yn ystod amser stori. Mae'r rhan fwyaf yn canolbwyntio am amser cynyddol, ac yn frwdfrydig iawn wrth chwarae rôl yn y tŷ bach twt neu wrth edafu gleiniau mân.  Maent yn mwynhau dawnsio a chanu i’r gerddoriaeth ac yn llawn cyffro a chwerthin byrlymus.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio yn arbennig o dda gyda phlant eraill gan rannu a chymryd tro. Maent yn cymryd eu tro i fynd i ‘brynu’ snac, rhannu ffrwythau a llysiau, ac yna torri llysiau i wneud cawl tra bod eraill yn gwerthu eu nwyddau yn y siop. Mae’r mwyafrif o blant yn helpu ei gilydd ac yn cydweithio’n dda fel tîm. Er enghraifft, wrth i blant rhoi cyfrifoldebau i’w gilydd pan yn adeiladu estyniad i’r wal bren. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo yn hapus pan yn cael eu canmol gan yr ymarferwyr am helpu tacluso neu am wrando’n dda yn ystod amser cylch.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn datblygu medrau annibynnol da. Maent yn arwain eu chwarae gan ddewis gweithgareddau a chyflawni tasgau wrth chwarae rôl, gludo ac adeiladu gyda blociau. Maent yn gallu diwallu eu hanghenion personol trwy fynd i'r tŷ bach a gwisgo cot. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymgymryd â thasgau dyddiol yn annibynnol, fel golchi eu dwylo a chlirio llestri ar ôl gorffen snac.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn. Mae bron bob un yn medru canolbwyntio'n arbennig o dda am gyfnodau hir wrth ymgolli yn eu dysgu. Mae llawer o blant yn cyfuno'u medrau'n llwyddiannus yn eu chwarae digymell, er enghraifft wrth gydweithio'n aeddfed i godi wal. Maent yn cyfathrebu'n fedrus i ddewis y blociau mwyaf addas ac wrth drafod y dull orau o gael tyrrau i gydbwyso ar y ffrâm. Mae defnydd o iaith fathemategol llawer o blant yn datblygu'n bwrpasol wrth ddefnyddio tâp mesur i wirio uchder a lled y wal, gan feithrin medrau datrys problem cadarn wrth greu estyniad. Maent hefyd yn datblygu medrau moesol da iawn wrth helpu ffrind i godi pram y ddol dros y wal yn ofalus. Yn ogystal, mae llawer yn datblygu eu medrau creadigol i droi'r cyfan yn gysgodfan dywyll, gydag ychydig yn defnyddio'u gwybodaeth blaenorol i ôl fflach lamp a thynnu llun â chamera o'r cyfan.

Mae bron bob un plentyn yn archwilio'r ardal awyr agored yn hyderus ac yn datblygu eu medrau corfforol bras yn effeithiol iawn, er enghraifft wrth gydbwyso ar ddarn o bren ar foncyff a rheoli beiciau o gwmpas rhwystr. Maent yn gwneud cysylltiadau gwerthfawr yn eu dysgu wrth ryfeddu ar y dŵr wedi rhewi, gan ddangos dyfalbarhad a gwytnwch wrth geisio datrys y broblem o ddadmer yr iâ. Mae medrau echddygol manwl bron bob un yn datblygu'n effeithiol ac maent yn mwynhau defnyddio ystod o adnoddau pwrpasol, er enghraifft wrth greu nadroedd yn y clai gan wasgu, ymestyn a rholio toes yn fedrus.

Mae bron bob plentyn yn gwrando'n astud a dilyn cyfarwyddiadau'n llwyddiannus. Maent yn datblygu eu medrau cyfathrebu'n dda, gyda'r ychydig yn defnyddio brawddegau ymestynnol i ddisgrifio eu profiad o beth gawson nhw i frecwast. Mae'r rhan fwyaf o blant yn gwrando'n dda iawn ar storïau, gyda llawer yn ymateb i ymarferydd yn llwyddiannus. Mae ychydig o blant yn dewis diddori'u hun mewn llyfrau yn annibynnol. Dengys bron bob un eu bod yn medru darllen eu henwau ar gerdyn yn llwyddiannus yn ystod amser snac. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau marcio yn effeithiol, gyda llawer yn ymdrechu'n llwyddiannus i greu geiriau syml fel 'mam' a 'dyma' yn ogystal a'u henwau.

Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau rhifedd ac yn mwynhau ymuno â rhigymau a chaneuon wrth chwarae. Maent yn cysylltu a chymhwyso eu gwybodaeth a'u medrau mathemategol mewn cyd-destunau sy'n ystyrlon iddynt. Er enghraifft, wrth dalu am fwyd a llaeth yn ystod amser snac a chyfeirio at siapiau wrth sgwrsio'n gymdeithasol â'i gilydd, "mae plât fi yn gylch a'r cracer yn sgwâr".

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn effeithiol iawn yn eu chwarae. Maent yn defnyddio teganau rhaglenadwy a chamera digidol yn hyderus. Mae llawer yn ymgorffori eu medrau'n llwyddiannus yn yr ardal chwarae rôl wrth ddefnyddio clorian digidol i bwyso gwahanol fwydydd ac wrth archwilio defnydd tostiwr a thegell go iawn i greu brecwast i'r teulu.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau creadigol y feistrolgar. Yn ystod sesiwn byr o ddawnsio i gerddoriaeth, mae bron bob un yn dilyn cyfarwyddiadau yn ofalus ac yn ymateb yn hyderus. Maent yn dangos eu mwynhad drwy neidio lan a

lawr, clapio a chwerthin wrth ymuno â rhigymau a chaneuon corfforol. O ganlyniad, mae datblygiad iaith Cymraeg llawer o blant yn datblygu'n dda.

**Gofal a datblygiad:**

Mae perthynas agos iawn rhwng yr ymarferwyr a'r plant. Maent yn eu hadnabod yn dda iawn, yn parchu eu diddordebau, hoffterau a'u gofynion personol. Mae'r ymarferwyr yn caniatáu i blant ddewis a dethol adnoddau eu hunain tu fewn a thu allan. Maent yn cynorthwyo'r plant i ehangu eu dealltwriaeth o'r Gymraeg ac yn datblygu eu dychymyg wrth ddysgu a chwarae yn yr awyr agored. Mae'r ymarferwyr yn cwestiynu ac ehangu geirfa'r plant yn dda pan mae cyfleoedd i wneud hynny. Maent yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn dathlu llwyddiannau'r plant yn gyson gan roi clod wrth i blentyn adnabod cymeriadau mewn llyfr. Mae ymarferwyr yn rhoi cyfleoedd da i blant i fod yn annibynnol trwy annog iddynt brynu snac ei hun o'r siop.

Mae ymarferwyr yn dangos cynhesrwydd a charedigrwydd tuag at y plant. Maent yn cynnig ystod dda o weithgareddau a phrofiadau sydd yn datblygu medrau'r plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn hollol gyson a theg wrth reoli ymddygiad ac yn fodelau rôl cadarnhaol. Maent yn sicrhau bod plant yn deall bod angen bod yn ofalus wrth chwarae gyda blociau pren ac yn eu hannog i ddweud 'diolch' am eu snac a diod. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda am anghenion dysgu ychwanegol, gyda gweithdrefnau cadarn yn eu lle ar gyfer adnabod anghenion plant yn gynnar a'u cyfeirio am gefnogaeth o asiantaethau allanol yn ôl yr angen.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth da iawn am weithdrefnau amddiffyn plant ac maent yn gwbwl ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae ymarferwyr yn cwblhau asesiadau risg priodol ac yn dilyn gweithdrefnau trylwyr iawn i sicrhau goruchwyliaeth ofalus a diogelwch y plant.

Maent yn hyrwyddo bwyta ac yfed iach yn llwyddiannus trwy ddarparu byrbryd iachus a maethlon. Mae ymarferwyr yn cadw cofnodion trylwyr o ddamweiniau a digwyddiadau.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth effeithiol o ddatblygiad plant, ac yn cydweithio'n dda i greu ethos positif iawn o ran y dysgu. At ei gilydd, maent yn cynnig profiadau gwerthfawr sy'n ymateb i anghenion a ddiddordebau'r plant yn gadarn, er enghraifft trwy annog plentyn ddod mewn ag adnoddau go iawn ac esbonio i'w ffrindiau sut mae'n casglu mêl adref gyda'i dad. O ganlyniad, mae gan bob plentyn ymdeimlad cryf o berthyn i'r lleoliad ac yn medru cymryd rhan lawn yn eu dysgu.

Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd chwarae buddiol i ddatblygu medrau cyfathrebu a chymdeithasol y plant. O ganlyniad, mae bob plentyn yn hyderus iawn i gyfathrebu ar lafar ag eraill. Mae ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr yn ystod amser snac sy'n caniatáu rhyngweithio o ansawdd uchel rhwng oedolion a phlant. Mae'r holl ymarferwyr yn eu hannog i arllwys llaeth, gosod ymenyn ar eu cracer a chlirio'r bwrdd. Mae hyn yn datblygu medrau annibynnol y plant yn llwyddiannus.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o draddodiadau a diwylliannau Cymreig yn llwyddiannus. Er enghraifft, trwy ddathlu Dydd Gŵyl Dewi a dysgu am ddigwyddiadau fel tîm pêl droed Cymru yn chwarae yng nghwpan y byd eleni. Maent hefyd yn cynnig ystod dda o brofiadau cyfoethog i'r plant drwy fynd ar ymweliadau a thrwy wahodd ymwelwyr i'r lleoliad. Enghraifft dda o hyn yw'r ymweliad gan gwmni opera a'r sesiwn ymchwiliol gan gwmni gwyddonol allanol. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd priodol i blant ddysgu am ddiwylliannau eraill gan gynnwys defnyddio offerynnau cerddorol o ar draws y byd.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd priodol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd plant drwy brofiadau bywyd bob dydd. Er enghraifft, maent yn eu hannog i chwarae rôl amser brecwast yn y gegin drwy archwilio llawer o adnoddau go iawn a llyfrau coginio. Maent hefyd yn cynnig adnoddau TGCh dilys yn yr ardaloedd i blant archwilio drwy chwarae yn llwyddiannus, er enghraifft trwy ddefnyddio'r til arian yn yr ardal chware rôl.

Mae ymarferwyr yn dechrau arbrofi a chynllunio ar gyfer hyrwyddo egwyddorion a chynnwys y Cwricwlwm i Gymru. Maent yn ymyrryd yn synhwyrol yn ystod chwarae ddigymell plant ac yn annog iddynt fentro a chymryd risg. Mae ymarferwyr yn dechrau cofnodi arsylwadau o ddatblygiad a chyflawniadau plant yn briodol. Er hyn, nid ydynt bob tro'n defnyddio deilliannau asesiadau i gynllunio gweithgareddau at y dyfodol sy'n bodloni anghenion a diddordebau bob plentyn yn llawn.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn sicrhau amgylchedd croesawgar a diogel sy'n sbarduno chwarae'r plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae systemau cadarn mewn lle i dderbyn a trosglwyddo plant. Mae'r ardaloedd dysgu a chwarae yn ennyn diddordebau'r plant yn llwyddiannus ac yn eu galluogi i ddarganfod ac archwilio'n bwrpasol. Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ardal allanol yn cynnig profiadau estynedig er mwyn datblygu medrau'n dda, yn enwedig eu medrau corfforol.

Mae'r arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau ystod dda o arddangosfeydd lliwgar sy'n dathlu gwaith crefft a ffotograffau'r plant, gan greu ymdeimlad o berthyn a balchder ymhlith y plant. Mae arweinwyr sicrhau cyflenwad dda o adnoddau dysgu a chwarae ar lefel y plant, sydd yn rhoi cyfleoedd i blant ddewis a dethol nhw eu hunain er mwyn datblygu'u medrau annibynnol yn llawn.

Mae'r amgylchedd yn hybu datblygiad cymdeithasol yn effeithiol. Mae modd i blant ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar gelfi sy'n addas i'w hoedran. Mae arweinwyr yn sicrhau bod preifatrwydd y plant yn cael ei barchu'n llwyddiannus wrth iddynt defnyddio'r tŷ bach ac wrth newid cewyn. Yn ogystal, mae darpariaeth digonol ar gyfer amser tawel yn yr ardaloedd tu fewn. Darperir cyfleoedd buddiol sy'n datblygu dealltwriaeth y plant am bobl yn y gymuned, er enghraifft trwy wrando ar storïau ac wrth edrych ar adnoddau gweledol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae'r arweinydd a'r dirprwy yn gymharol newydd i'w rôl. Yn y cyfnod byr ers ei phenodiad, mae'r arweinydd wedi gweithio'n effeithiol iawn gydag ymarferwyr i ddatblygu'r ddarpariaeth. Mae hi'n sicrhau bod lles plant, staff a theuluoedd yn

flaenoriaeth gyson. Mae’r arweinydd yn trefnu'r lleoliad yn dda gan sicrhau bod pob ymarferydd yn cwrdd ag anghenion y rhan fwyaf o blant yn effeithiol. Mae hi’n cymryd rôl weithgar yn y lleoliad ac yn hyrwyddo ethos positif, cynhwysol a hapus. Mae gan bawb barch at ei gilydd ac mae'r arweinydd yn croesawu cyfraniadau ymarferwyr tuag at syniadau gweithgareddau. O ganlyniad, mae ymarferwyr yn teimlo eu bod nhw'n cael eu cefnogi a'u gwerthfawrogi. Mae bob ymarferydd yn deall eu swyddogaethau'n llawn ac mae ymrwymiad cryf i waith tîm. Maent yn gwerthfawrogi cyfleoedd rheolaidd ar gyfer datblygiad proffesiynol ac yn cymhwyso hyn i'w hymarfer yn effeithiol. Maent yn cael trafodaethau a chyfleoedd rheolaidd i gyfrannu eu syniadau ar brofiadau a’r ddarpariaeth o fewn yr amgylchedd.

Mae datganiad o bwrpas clir sy'n gynrychiolaeth gywir o'r lleoliad, ac yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn gallu gwneud dewis gwybodus. Mae ganddynt ystod effeithiol o bolisïau ac maent yn rhannu'r rhain yn llwyddiannus gyda rhieni. Mae’r arweinydd a rheolwyr yn dilyn gweithdrefnau recriwtio cadarn i gyflogi ymarferwyr sydd â chymwysterau addas. Maent yn gwneud defnydd addas o oruchwyliaeth ac arfarniadau i gefnogi ymarferwyr. Mae’r arweinydd a rheolwyr yn gwneud defnydd da o'r cyllid sydd ar gael. Er enghraifft, maen nhw wedi buddsoddi mewn adnoddau newydd ar gyfer darpariaeth awyr er mwyn cynnig profiadau gwerthfawr i'r plant.

Mae gan y lleoliad berthynas gref iawn gyda rhieni a gofalwyr. Wrth i blant ddechrau yn y lleoliad, mae’r arweinydd ac ymarferwyr yn cysylltu â rhieni a gofalwyr er mwyn canfod anghenion a diddordebau plant. O ganlyniad maent yn gallu darparu ar gyfer eu diddordebau’n llwyddiannus. Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn eu hysbysu’r rhieni a gofalwyr am les a datblygiad eu plentyn yn rheolaidd trwy sgyrsiau dyddiol anffurfiol, a grŵp cyfryngau cymdeithasol caeedig. Maent yn gwerthfawrogi'r cyfathrebu hwn yn fawr ac yn eu helpu i gefnogi dysgu a datblygiad eu plentyn yn y cartref.

Mae gan y lleoliad drefniadau addas ar gyfer adnabod cryfderau a meysydd i’w gwella sy’n cyfrannu’n briodol ar sicrhau gwelliannau o ran y ddarpariaeth a deilliannau plant. Er enghraifft, maent wedi datblygu’r ardal allanol yn fuddiol er mwyn datblygu medrau plant yn llwyddiannus. Mae’r lleoliad yn cydweithio’n dda gyda nifer o bartneriaethau er mwyn gwella’r ddarpariaeth, gan gynnwys yr athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw’r prosesau hunanwerthuso wedi eu gwreiddio’n llawn ac nid yw arweinwyr bob tro’n cynnwys rhanddeiliaid eraill yn ddigon effeithiol yn y broses i sicrhau gwelliant. O ganlyniad, nid yw arweinwyr nac ymarferwyr yn hollol ymwybodol o’r hyn maent yn gwneud yn dda a beth sydd angen gwella.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 13/02/2023